**Pwyllgor Busnes BC345-00(final)**

COFNODION CYFARFOD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mawrth 12 Rhagfyr 2000 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Ystafell y Llywydd (A3.13) |

**Yn bresennol:**
John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, Trefnydd
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Elin Jones, Plaid Cymru
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, YP/Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (Eitem 8 ar yr agenda)
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (Eitem 3 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Anfonodd Jocelyn Davies ei hymddiheuriadau. Yr oedd Elin Jones yn bresennol yn ei lle yn unol â Rheol Sefydlog 13.3.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

**BC330-00 (final)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu ffurf terfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC335-00 (draft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf drafft. Awgrymwyd rhai mân-newidiadau. Byddent yn cael eu hymgorffori yn y fersiwn terfynol a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi

3.1 **Paragraff 3.3** – dywedodd Marion Stapleton bod swyddogion yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn ystyried diwygio'r Rheolau Sefydlog, yn dilyn eu trafodaethau â David Lambert. Byddai papur yn cynnig newidiadau i gydnabod "Gweinidogion" a rhai newidiadau pellach yn cael ei gyflwyno ar gyfer un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol. **Gweithredu: Marion Stapleton i ddod â phapur gerbron**

3.2 **Paragraff 5.1** – Roedd y Dirprwy Lywydd wedi siarad â'r Llywydd am y cynigion i ddenyddio'r Pwyllgor Busnes i fynegi barn am y ffordd y cynhelir Cyfarfodydd Llawn. Roeddent wedi cytuno na fyddai o gymorth i'r Pwyllgor Busnes ddechrau ymwneud â materion yr oedd y Llywydd, a'r Llywydd yn unig, yn gyfrifol amdanynt. Gallai aelodau a oedd yn bryderus gysylltu â'r Llywydd yn uniongyrchol. Fodd bynnag, teimlai Rheolwyr Busnes ei bod yn briodol defnyddio'r Pwyllgor Busnes fel fforwm i gynnig cyngor cyffredinol yn hytrach na chodi pwyntiau o drefn mewn Cyfarfodydd Llawn. Cytunwyd y gallai Rheolwyr Busnes gynnig sylwadau yn achlysurol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol a châi hyn sylw o dan *Unrhyw Fater Arall.*

3.3 **Paragraff 7.6** – Dywedodd y Trefnydd y byddai Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn agor y ddadl ar yr adroddiad Grantiau Arbennig ar 19 Rhagfyr.

3.4 **Paragraff 9.1** – cyflwynodd Marie Knox bapur BC337-00 ar gynigion i ddiwygio Rheol Sefydlog 12.7 i lacio'r darpariaethau datgymhwyso ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio. Roedd y Pwyllgor yn cytuno ar egwyddor y papur a gofynnodd i Marie Knox baratoi papur arall yn cynnwys newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i aelod dynnu'n ôl ac enwebu dirprwy i gymryd rhan yn rhai o drafodion arbennig y Pwyllgor Archwilio. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Trefnydd, dywedodd David Lambert na fyddai'r diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn golygu y gallai'r Pwyllgor Archwilio gael ei herio'n gyfreithiol. **Gweithredu: Marie Knox i baratoi papur i'r Pwyllgor ei ystyried**

## <u>4. Materion wedi'u cyfeirio o'r Cyfarfod Llawn</u>

4.1 Roedd y Dirprwy Lywydd yn bryderus am nifer yr Aelodau a oedd wedi mynegi'u bwriad i siarad ar 7 Rhagfyr ond a oedd yn absennol o'r Siambr yn ystod gweddill y ddadl. Dosbarthwyd dyfyniad o'r Cod Ymddygiad yn y Siambr (BC338-00) i'r Pwyllgor i atgoffa Aelodau o'u cyfrifoldebau. Dywedodd y Dirprwy Lywydd na fyddai Aelodau yn cael eu galw yn y dyfodol heblaw eu bod yn bresennol ar gyfer y rhan fwyaf o'r ddadl.

4.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai ef a'r Llywydd yn disgwyl i ddatganiadau gan y Cabinet ddod ar ôl cwestiynau llafar yn y dyfodol. Pe na bai modd iddynt gael eu cymryd bryd hynny, yna byddent yn cael eu cymryd ar adeg briodol yn hwyrach yn ystod y trafodion. Fodd bynnag, ni fyddid yn caniatáu i ddatganiadau amharu ar ddadleuon yn y dyfodol.

4.3 Yn dilyn y pryder am absenoldeb Aelod o'r Cabinet i gynnig cynnig trefniadol ar 7 Rhagfyr, dywedodd y Dirprwy Lywydd na fyddai'r eitem yn cael

ei chymryd, pe bai amgylchiadau tebyg yn codi yn y dyfodol.  Ymddiheurodd y Trefnydd a dywedodd na fwriadwyd unrhyw anghwrteisi i'r Cynulliad.

**5.  Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau**

5.1  Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC339-00 ar ddyddiau cyflwyno yn ystod toriad y Nadolig, a chytunodd arno.  Gallai'r wybodaeth gael ei dosbarthu yn awr i'r holl Aelodau.  **Gweithredu: y Swyddfa Gyflwyno**

5.2  Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC340-00 ar gynigion i newid oriau agor y Swyddfa Gyflwyno, a chytunodd arno.  Nodwyd bod y cynnig i agor am 8.00am ar ddydd Iau yn bosibl oherwydd patrymau gwaith staff presennol y Swyddfa Gyflwyno.   Byddai lefel y gwaith yn cael ei adolygu a byddai unrhyw gynigion i newid yr amseroedd hyn yng ngoleuni profiad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Busnes yn y lle cyntaf.  Câi'r amseroedd agor diwygiedig eu dosbarthu yn awr i'r holl Aelodau.  **Gweithredu: y Swyddfa Gyflwyno**

**6.  Pwyllgorau**

6.1 Dim.

**7.  Gwaith yn y dyfodol**

**Gwaith yr wythnos hon**

7.1  Dywedodd y Trefnydd y byddai Edwina Hart yn gwneud datganiad Cabinet yn y Cyfarfod Llawn yn hwyrach y prynhawn hwnnw.  Cadarnhaodd hefyd y byddai Paul Murphy, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn gwneud datganiad ar araith y Frenhines.

7.2  Cytunwyd y byddai Plaid Cymru a'r Trefnydd yn trafod trefniadau eistedd ar gyfer pobl bwysig sy'n ymweld y tu allan i gyfarfod y Pwyllgor Busnes.

7.3  Bu'r Pwyllgor yn ystyried y datganiad busnes drafft (BC341-00).

**Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn 18 Rhagfyr, 10 & 15 Ionawr 2001**

7.4  Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ar ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefn gwaith y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn 18 Rhagfyr, 10 a 15 Ionawr oedd y dylai ddilyn yr amlinelliad yn y datganiad busnes drafft.  Nodwyd y dylai dadl ar Ymgynghori a Chyfranogi gael ei hychwanegu ddydd Iau 18 Ionawr.

7.5  Dywedodd Kirsty Williams y byddai Mike German yn siarad fel Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn y dadleuon ar araith y Frenhines.   Dywedodd William Graham y byddai'n tynnu sylw Aelodau at hyn pan fyddai'n codi i siarad.

**8.  Is-ddeddfwriaeth**

**Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001**

8.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC342-00 a oedd yn nodi cyngor Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn hwn. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r pwyllgor pwnc. Byddai'n gwneud ei benderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel bod modd ei gyhoeddi yn ystod busnes y prynhawn.
**Penderfyniad y Dirprwy Lywydd – Gweithdrefn gyflymach.**

**Rheoliadau Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2001**

8.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC343-00 a oedd yn nodi cyngor Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn hwn. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r pwyllgor pwnc. Byddai'n gwneud ei benderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel bod modd ei gyhoeddi yn ystod busnes y prynhawn.
**Penderfyniad y Dirprwy Lywydd – Gweithdrefn gyflymach.**

**Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001**

8.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC342-00 a oedd yn nodi cyngor Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn hwn. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r pwyllgor pwnc. Byddai'n gwneud ei benderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel bod modd ei gyhoeddi yn ystod busnes y prynhawn.
**Penderfyniad y Dirprwy Lywydd – Gweithdrefn gyflymach.**

## 9. Diwygiadau i Reolau Sefydlog

9.1 Dim.

## 10. Dyfarniadau'r Llywydd

10.1 Dim.

## 11. Unrhyw fater arall

11.1 Dim.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**